

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 16eg Mai, 2022
drwy gyfrwng Zoom

Presennol: Dwynwen (DP) (**Cadeirydd**) Iolo Roberts (IPR), Eryl (EO), Elen (EH), Steve (SW), Iolo ap Gwynn (IAG), Raymond (RG), Sioned (SJ),

Ymddiheuriadau: Dilys, Dewi, Iona, Keith a Richard,

1.	<u>CYDYMDEIMLAD</u> Estynnodd Dwynwen gydymdeimlad ag Eryl ar golli ei frawd yn ddiweddar	
2.	<u>COFNODION</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10fed Ionawr, 2022 fel rhai cywir Yn codi Eitem 7 – Diffibrilwyr Cytunwyd y byddai hyfforddiant drwy fideo ar gyfryngau ar y wefan megis “You Tube” ar sut i ddefnyddio’r offer yn cwrdd â’r angen i ddarparu hyfforddiant.	
3.	<u>MATERION ARIANNOL</u> Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â’r sefyllfa gyfredol a. Materion Cyffredinol Adroddodd <ul style="list-style-type: none">• bod 280 o aelodau wedi ailymuno hyd yma• bod gan y Clwb oddeutu £5040 yn y banc yn cynnwys £846.26 o arian coffa Gareth Pierce• y byddai’n hawlio rhodd cymorth o £28.12 ar yr arian a dderbyniwyd a fyddai yn dod â chyfanswm y gronfa i £874.38. Cytunwyd nodi’r wybodaeth b. Trefniadau Bancio Adroddodd ei bod wedi ymchwilio i’r posibilrwydd o newid cyfrif Banc y Clwb o HSBC i fanc arall yn deillio o benderfyniad y banc i ddechrau codi tâl am drafodion. Rhoddodd amlinelliad o fanteision ac anfanteision newid y cyfrif. Diolch i DAP am ei holl waith ar hyn. Penderfyniad y Pwyllgor oedd y dylid aros efo	

	<p>HSBC.</p> <p>c. Debyd Uniongyrchol</p> <p>Adroddodd ei bod wedi edrych i mewn i'r posibilrwydd o dderbyn taliadau i gyfrif banc y Clwb trwy ddebyd uniongyrchol. Os am wneud hynny byddai'n rhaid defnyddio asiant i weithredu'r drefn ar ein rhan. Roedd wedi cael gwybodaeth am nifer o gwmnïau ond nid oedd unrhyw un yn cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Cytunwyd y byddai i'r Clwb weithredu unrhyw drefn o ddefnyddio debyd uniongyrchol drwy gyfrwng y Saesneg yn groes i egwyddorion sylfaenol y Clwb ac na fyddai gwneud hynny yn dderbyniol</p>	
<p>4</p>	<p><u>Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Rhodddwyd cyflwyniad byr gan Sian Williams, Swyddog Gwirfoddoli Y Bartneriaeth Awyr Agored, i'r aelodau am newidiadau i'r ffordd y bydd y Bartneriaeth yn gweithredu i'r dyfodol.</p> <p>Adroddodd</p> <p>i. byddai angen i glybiau dalu tâl aelodaeth o £150 y flwyddyn os am geisio am gefnogaeth ariannol i'w haelodau fynychu unrhyw gyrsiau, ii. mai £500 fyddai'r uchafswm ar gael yn flynyddol fel cymorth i aelodau unrhyw glwb</p> <p>Cytunwyd gan fod budd i aelodau'r Clwb fynychu cyrsiau ar gael drwy'r bartneriaeth y dylid ymaelodi ar gost o £150 y flwyddyn.</p>	
<p>5.</p>	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd EO ar y materion canlynol</p> <p>a. Rhaglen Weithgareddau</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod rhaglen bresennol y Clwb yn rhedeg tan mis Awst a diolchodd i bawb gytunodd i arwain teithiau • Siomedig oedd yr ymateb i daith ddiweddar y Clwb i'r Alban gyda nifer llai o aelodau wedi mentro o'i gymharu ag wythnosau blaenorol y Clwb yn yr Alban ym mis Mai. Bosib bod dwy wyl banc yn yr wythnos ganlynol wedi cael effaith. • bod trefniadau ar y gweill i gynnal dwy daith ar benwythnos 18/19 Mehefin , un ar Aran Fawddwy a Benllyn a'r llall ar y Berwyn fel rhan o benwythnos ar y cyd ag aelodau'r de. O bosib byddai rhai o aelodau teulu Gareth yn ymuno ar y daith ar y ddwy Aran. <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a diolch i EO am ei holl waith</p>	
<p>6.</p>	<p><u>RHODDION ER COF AM GARETH PIERCE</u></p> <p>Adroddwyd gan EO</p>	

	<ul style="list-style-type: none"> • bod swm o oddeutu £850 wedi ei dderbyn i'r gronfa • mai siomedig oedd yr ymateb gan bobl ieuanc/ysgolion i gynnig yr Urdd i gynnal gweithgareddau awyr agored ar eu cyfer yng Ngwersyll Glan-Ilyn. Bosib bod cynnig hyn yn ystod mis Mai pan mae nifer o ddisgyblion efo arholiadau yn amseru gwael. • bod yr Urdd bellach yn edrych i gynnig rhywbeth cyffelyb yn ystod misoedd Medi neu Hydref gyda'r gobaith y byddai gwell ymateb <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth.</p>	
7.	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2022</u></p> <p>Adroddodd IPR bod angen ystyried dechrau gwneud trefniadau i gynnal y Cyfarfod Blynyddol eleni.</p> <p>Cytunwyd y byddai IPR yn holi pa opsiynau fyddai ar gael naill ai ar benwythnos 12fed o Dachwedd neu'r 19eg.</p>	
8.	<p><u>Eisteddfod Genedlaethol 2022 – Darlith Flynyddol</u></p> <p>Darlith Flynyddol</p> <p>Adroddodd DP fod yr Eisteddfod bellach wedi cadarnhau trefniadau cynnal darlith flynyddol y Clwb. Bydd Caradog Jones yn rhoi'r ddarlith ym Mhabell y Cymdeithasau ar ddydd Gwener 5ed o Awst am 11:00. Teitl y ddarlith fydd "Elfen am antur". Gofynnodd am farn y pwyllgor ynglŷn â sut i drefnu cyhoedduswydd</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> i. nodi'r wybodaeth a diolch i DP am ei gwaith yn gwneud y trefniadau ii. mai cyhoedduswydd electroneg yn unig y dylid ei ddefnyddio y tro yma a gofynnwyd i DP lunio poster digidol wedi iddi dderbyn llun gan Caradog <p>Taith Eisteddfod</p> <p>Cytunwyd gofyn i EO ar y cyd â DH i drefnu taith yn ystod wythnos yr Eisteddfod a chyn belled â bod teulu Gareth yn fodlon y dylid galw taith a drefnir gan y Clwb yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn Daith Goffa Gareth Pierce.</p>	
9.	<p><u>OFFER Y CLWB</u></p> <p>Adroddwyd bod DAP wedi cael gwybod am fanylion helmedau'r Clwb sy'n cael eu cadw gan Gareth Wyn a'u bod wedi eu cofnodi ar restr offer y Clwb.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth.</p>	
10.	<p><u>MATERION CMP</u></p> <p>Adroddodd SW ar drafodaethau rhai o gyfarfodydd diweddar cangen leol y CMP.</p>	

Adroddodd bod Elfyn Jones, Swyddog Mynediad y CMP yng Nghymru wedi ymddeol bellach a bod Tom Carrick wedi ei benodi yn ei le. Rroedd yn falch o adrodd bod Tom hefyd yn Gymro Cymraeg.. Hefyd penodwyd Keith yn gynrychiolydd ardal i BMC bellach.

Diolchwyd i SW am y wybodaeth.

13. CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR

Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 12fed o Fedi 2022 drwy gyfrwng Zoom.